# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2015

Amser: 08.30 - 08.56

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Byddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar drydaneiddio rheilffyrdd.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2015 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (15 munud)

### 3.4 Craffu ar Fil Cymru drafft

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur a oedd yn nodi cynigion manwl ar gyfer strwythur dadl ynghylch Bil Cymru drafft yn seiliedig ar yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd, penderfynodd y Rheolwyr Busnes drefnu dadl a fyddai'n para tair awr yng Nghyfarfod Llawn dydd Mercher 13 Ionawr.

Penderfynodd y Rheolwyr Busnes gyfarfod y tu allan i'r pwyllgor cyn toriad y Nadolig i gytuno ar strwythur cyffredinol y ddadl.

## 4 Y Rheolau Sefydlog

### 4.1 Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru

Ar 17 Tachwedd, trafododd y Rheolwyr Busnes bapur i adolygu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeddfu yng Nghymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor Busnes.  Ar 30 Tachwedd, ar ôl trafod gyda grwpiau'r pleidiau, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan gynnwys y newidiadau a gynigiwyd i'r Rheolau Sefydlog.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i aros i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ddosbarthu nodyn yn amlinellu ei safbwynt ar yr argymhellion cyn ymateb i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y flwyddyn newydd.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes

Ar ôl i'r Pwyllgor drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar ei Adroddiad Etifeddiaeth yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf, cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod adroddiad drafft ym mis Ionawr.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Y Pwyllgor Menter a Busnes: Cais i ymweld â Wrecsam

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar gais gan y Pwyllgor Menter a Busnes i ymweld â Wrecsam rhwng dydd Mercher 27 Ionawr a dydd Iau 28 Ionawr 2016.

## 7 Deddfwriaeth

### 7.1 Biliau Preifat, Biliau Hybrid a Biliau Cydgrynhoi

Trafododd y Rheolwyr Busnes gynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd ar gyfer Biliau Preifat a Biliau Hybrid gan gytuno i ymgynghori â'u grwpiau ac ailedrych ar y papur yn ystod y cyfarfod ar 19 Ionawr 2016.